



**Ein diweddariad
ynghylch y
gwelliannau a
gyflawnwyd dros y
6 mis diwethaf ym
maes Ymgysylltu i
Wella (e2i)**

> Awst 2020

Diolch am eich cefnogaeth

Diolch am eich holl gefnogaeth dros y 6 mis diwethaf.

Isod fe welwch chi ein hadroddiad diweddaru ynghylch yr 1 thema ganlynol ar gyfer gwella. Nid oedd modd rhannu diweddariadau eraill oherwydd COVID-19, ond bydd gwybodaeth am welliannau i'w gweld mewn adroddiadau diweddaru 6 misol yn y dyfodol:

> Hydref 2019 – #14 Ymgysylltu â Chwsmeriaid

#14 Ymgysylltu â Chwsmeriaid

Diben y thema

Ystyried sut y gallwn barhau i ehangu a gwella ein darpariaeth ar gyfer Ymgysylltu

Pam y gwnaethom ymgymryd â'r thema hon?

Er mwyn sicrhau bod ein Cynlluniwr Themâu yn adlewyrchu dymuniadau ein cwsmeriaid: mae angen i ni ofyn i'n cwsmeriaid pa themâu y byddent yn hoffi eu gweld yn cael eu cynnwys – pa wasanaethau y byddent yn hoffi i ni weithio arnynt, ac mae angen i ni adolygu llwyddiant ein gwaith Ymgysylltu i Wella

Beth yr ydym wedi'i ddysgu ar ôl 6 mis?

Dros gyfnod y thema e2i hon, dyma'r pethau penodol yr ydym wedi'u dysgu:

- 1/ Mae'r tîm e2i yn gweithio'n effeithiol tuag at gwrdd â chwsmeriaid yn bersonol pan fyddant yn ymrwmo i'w tenantiaeth, e.e. mae gan y tîm e2i ddyddiadau wedi'u trefnu a thaflen gryno a chdir yn barod i'w dosbarthu, ond nid ydym wedi cyflawni'r dasg hyd yn hyn.
- 2/ Nod y tîm e2i yw defnyddio'r lle gwag mewn llythyrau sydd eisoes yn cael eu hanfon at gwsmeriaid, er mwyn hysbysebu digwyddiadau sydd i ddod. Rydym hefyd wedi gwella'n fawr y modd yr ydym yn hysbysebu digwyddiadau trwy ddulliau ar-lein, sy'n cynnwys darparu calendr blynyddol o ddiwyddiadau, sydd ar gael ar ffurf copi papur hefyd.
- 3/ Mae cwsmeriaid yn awyddus i gynnig themâu i'w hadolygu; mae gan gwsmeriaid broblemau sy'n codi dro ar ôl tro y byddent yn hoffi i ni eu datrys; mae'r tîm e2i wedi dosbarthu'r pryderon hyn i gategoriâu ac wedi eu troi'n themâu ar gyfer 2020/21.

Beth fydd yn digwydd nesaf?

Byddwn yn parhau i fonitro'r problemau a godwyd yn yr adolygiadau hyn o themâu. Byddwn yn adrodd ynghylch cynnydd y fenter Ymgysylltu i Wella unwaith eto ymhen 6 mis.

Diolch am eich cefnogaeth

Rydym wir yn gwerthfawrogi pawb sy'n cymryd rhan yn yr adolygiadau hyn o themâu.

Angen gwybod mwy neu dynnwch sylw at broblem?

Anfonwch ebost atom: engage@atebgroup.co.uk

Ewch i'n gwefan: www.atebgroup.co.uk

Galwch heibio i'n gweld: **Tŷ Meyler, St Thomas Green, Hwlfordd, Sir Benfro SA61 1QP**